- Mae creu amgylcheddau di-fwg - gan gynnwys parciau, meysydd chwarae a'r mannau o amgylch ysgolion - ar draws Manceinion Fwyaf yn allweddol i'r nod o amddiffyn pobl rhag mwg ail-law.
- Mae **cefnogaeth gyhoeddus gref** i'r strategaeth Make Smoking History - dywedodd 79.3 y cant o gyfranogwyr yr arolwg eu bod yn cytuno ar y cyfan â gadael ysmygu yn y gorffennol ym Manceinion Fwyaf, ac mae dros dri chwarter o blaid ehangu'r mannau di-fwg.
- Hyd yn hyn mae'r strategaeth wedi arwain at **ostyngiad o 2.2 y cant** yng nghyfradd yr ysmygwyr o 18.4 y cant yn 2016 i 16 y cant yn 2019. Bellach mae llawer mwy o ysmygwyr Manceinion Fwyaf yn ceisio rhoi'r gorau iddi, gyda 40 y cant neu fwy yn ceisio rhoi'r gorau iddi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cwestiynau

- Martin Fidler Jones: A oedd ymyrraeth benodol a wnaeth y gwahaniaeth yn yr ymgyrch 'Gadael Ysmygu yn y Gorffennol'.
- Andrea Crossfield: Y gwahaniaeth mwyaf un o ran cynyddu ymdrechion i stopio yw'r buddsoddiad mewn ymgyrchoedd. Yr hyn a wnaeth wahaniaeth yn anad dim wrth sefydlu'r ymgyrch oedd ymgysylltu gwleidyddol ac ymgysylltiad uwch-arweinwyr drwy'r system gyfan, gan ddod â phawb ynghyd a chael ymrwymiad ganddynt. Yn dilyn hynny mae cefnogaeth y cyhoedd a'r gymuned wedi caniatáu iddynt wneud beth maen nhw'n ei wneud.
- Mathew Norman: Pryd, yn eich barn chi, y dylai Cymru anelu at gael targed diweddglo?
- Andrea Crossfield: 2030 yw'r targed yn Lloegr. Nid oes rheswm yn y byd na ddylai Cymru wneud yr un peth o ystyried y sefyllfa bresennol. Gyda'r buddsoddiad cywir, a'r ewyllys, gellid cyflawni hyn.

**Eitem 5**: Diolchodd Suzanne Cass i'r siaradwyr a dywedodd y byddem yn cyflwyno adroddiad a set o argymhellion yn dilyn y cyfarfod heddiw.

Cwestiynau

- Nick Ramsay: A wnaethpwyd unrhyw waith ers y cyfnod cloi, a beth yw'r effaith ar gyfraddau ysmygu yng Nghymru? A wnaethpwyd unrhyw beth i helpu pobl i stopio ysmygu yn ystod y cyfnod heriol hwn?
- Suzanne Cass: Gwyddom o arolwg yn y DU fod cynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu. Mae Covid-19 yn glefyd anadlol ac mae'n ymddangos bod y neges wedi cyrraedd y nod, sef bod ysmygu yn cynyddu eich risg o gael symptomau mwy difrifol o'r afiechyd. Mae problem yn ymwneud â phrinder gwasanaethau wyneb yn wyneb, felly mae her o ran sut y gallwn ni gefnogi pobl sydd am roi'r gorau i ysmygu. Mae Helpmequit wedi cynyddu eu gwasanaeth ffôn, ond mae angen atebion mwy arloesol. Sut y gallwn ni gyrraedd cymunedau, gweithio gyda maes tai, gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol? Mae'n heriol. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf, mae cyffredinrwydd wedi codi o 17 y cant i 18 y cant, ond rydym yn amau bod y ffigur hwnnw wedi gostwng ers dechrau'r cyfnod clo. Rhaid aros i weld.

**Eitem 6**: Diolchodd John Griffiths i'r cyflwynwyr a phwysleisiodd bwysigrwydd clywed enghreifftiau o leoedd eraill. Pwysleisiodd yr ewyllys wleidyddol gref yng Nghymru. Yna daeth â'r cyfarfod i ben.

DIWEDD

Cwestiynau

- Suzanne Cass: Ble mae Cymru yn arni o'i chymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill, a sut y gall Cymru ddysgu o'r Fforwm Polisi Ewropeaidd?
- Claire Clement: Mae'r DU mewn lle da o'i chymharu â gweddill Ewrop. Mae lefel dda o gydymffurfio o ran polisïau di-fwg. Mae mwyafrif y polisïau'n dod yn hunanorfodol ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu. Rydym wedi arwain y ffordd mewn pethau fel cyfreithiau di-fwg o ran ysmygu mewn ceir.
- Mathew Norman: A oes data sy'n dangos y gostyngiad mewn ysmygu rhwng y gwledydd hynny sydd â chyfreithiau di-fwg ar waith a'r gwledydd hynny sydd hebddynt - a oes sylfaen dystiolaeth?
- Claire Clement: Oes, mae sylfaen dystiolaeth. Mae gorfodi yn bwysig. Roedd gan Wlad Groeg gyfraith dda ond ni chafodd ei gorfodi ac isel oedd lefel y cydymffurfio. Bu'n rhaid iddynt gyflwyno cyfraith arall â dirwyon llawer uwch ac yna y gwelwyd cydymffurfio yn gwella. Mae dirwyon yn ataliad pwysig. Mewn gwledydd lle mae cydymffurfio'n dda, mae tystiolaeth gref fod ysmygu yn gostwng. Dylid cofio ein bod ni hefyd yn ceisio dad-normaleiddio ysmygu ac mae tystiolaeth gref bod hyn yn digwydd.
- Bethan Edwards: Pa mor bwysig yw hi fod llunwyr polisi o wahanol wledydd yn rhannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgir, a'n bod ni'n defnyddio'r enghreifftiau a'r astudiaethau achos hyn?
- Claire Clement: Mae'n bwysig iawn. Os gall un wlad ei wneud, a'i wneud yn dda, mae'n dangos i eraill y gellir ei wneud, er enghraifft Sweden lle mae palmentydd di-fwg - mae Sbaen a gwledydd eraill bellach yn dilyn ei hesiampl.
- Craig Lawton: Heblaw am bolisïau di-fwg, a oes unrhyw gamau/polisïau anuniongyrchol sydd wedi helpu i leihau ysmygu?
- Claire Clement: Oes, ac mae mesurau eraill yn bwysig. Cynyddu treth yw'r ataliad gorau. Mae gan Gonfensiwn Fframwaith WHO ar Reoli Tybaco lu o syniadau am yr hyn sy'n gweithio orau.

**Eitem 3**: Amlygodd Dr Esteve Fernandez o Sefydliad Oncoleg Catalwnia rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau ysbytai di-fwg, yn bennaf presenoldeb parhaus ysmygwyr ger mynedfeydd y parthau di-fwg, a phwysleisiodd yr angen am **barthau di-fwg ychwanegol** o amgylch y lleoedd hyn, fel gatiau ysgolion.

Sefydlwyd Rhwydwaith Ysbytai Di-fwg Catalwnia ym 1998. Yn gyntaf, nid oedd dim cyllid gan y llywodraeth ar gyfer y fenter. Bellach mae 84 o ysbytai yn gysylltiedig â'r cynllun. Roedd gweithredu yn golygu:

- Hyfforddiant rhoi'r gorau i ysmygu i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd
- Sefydlu a hybu gweithgorau, a chyfarfod blynyddol
- Monitro cyffredinrwydd ysmygu ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd

**Sefydlu proses achredu** i ddyfarnu lefel aur, arian neu efydd i leoliadau gofal iechyd yn dibynnu ar y polisïau di-fwg.

**Eitem 4**: Andrea Crossfield o Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Manceinion Fwyaf sy'n arwain y gwaith o gyflwyno strategaeth Making Smoking History ym Manceinion Fwyaf er mwyn lleihau cyffredinrwydd ysmygu ymhellach ac ynghynt yno nag unrhyw le arall yn y DU ac yn y byd, a hynny dros y 3 blynedd nesaf.

Nod y strategaeth yw sicrhau bod 115,000 yn llai o bobl yn ysmygu erbyn diwedd 2020, a gostwng y gyfradd ysmygu o 18.4 y cant i 13 y cant erbyn 2021, ac i 5 y cant erbyn 2027. Nod y strategaeth hefyd yw lleihau ysmygu ar adeg esgor o 12.6 y cant i 6 y cant.

**Agenda**

**Agenda**

| Amser | Eitem |
| --- | --- |
| 10.30 | 1. Croeso gan y Cadeirydd |
| 10.35 | 2. Cyflwyno Siaradwyr gan ASH Cymru |
| 10.40 | 3. Cyflwyniad gan Claire Clement a chwestiynau |
| 10.55 | 4. Cyflwyniad gan Dr Esteve Fernandez a chwestiynau |
| 11.15 | 5. Cyflwyniad gan Andrea Crossfield MBE a chwestiynau |
| 11.30 | 6. Crynodeb a chloi’r cyfarfod |

**Siaradwyr**

- **Claire Clement, Swyddog Polisi, Partneriaeth Ddi-fwg (SFP).** Mae gan yr SFP, sydd wedi'i lleoli yng Ngwlad Belg, 49 aelod sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol ac ar lefel yr UE. Blaenoriaeth y bartneriaeth yw hyrwyddo deddfwriaeth flaengar ar gyfer rheoli tybaco sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- **Dr Esteve Feranandez, Cyfarwyddwr Uned Rheoli Tybaco yn Sefydliad Oncoleg Catalwnia ac Athro ym maes Epidemioleg ac Iechyd Cyhoeddus yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Barcelona.** Mae cyfreithiau rheoli tybaco Sbaen yn cynnwys gwahardd ysmygu ar dir ysbytai, ar dir ysgolion, mewn meysydd chwarae plant ac, yn fwy diweddar, waharddiad ar derasau awyr agored a mannau cyhoeddus.
- **Andrea Crossfield o Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Manceinion Fwyaf.** Andrea sy’n arwain y gwaith o gyflwyno strategaeth Making Smoking History ym Manceinion Fwyaf er mwyn lleihau cyffredinrwydd ysmygu ymhellach ac ynghynt yno nag unrhyw le arall yn y DU ac yn y byd, a hynny dros y 3 blynedd nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod**

**Eitem 1**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Cyflwynodd gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo’n gryf i fannau di-fwg yng Nghymru. Hefyd, fe rannodd â’r grŵp y newyddion bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi cyhoeddi ddoe ei bwriad i wneud pêl-droed mini ac iau yn ddi-fwg o hyn ymlaen.

**Eitem 2**: Cyflwynodd Suzanne Cass o ASH Cymru y siaradwyr.

Rhannodd Claire Clement o Smokefree Partnership fap Smokefree 2020 y bartneriaeth, sy’n dangos i ba raddau y mae gwahanol wledydd Ewrop wedi mabwysiadu a gweithredu polisïau FCTC yr WHO a lle mae angen gwella.

- Nodir y DU gyfan fel gwlad sy’n gryf iawn o ran mabwysiadu deddfwriaeth ddi-fwg.
- Pwysleisiodd CC bwysigrwydd **gorfodi effeithiol** a phwysleisiodd boblogrwydd y mesurau hyn, a oedd yn tueddu i gynyddu ar ôl eu gweithredu.
- Mae dulliau gorfodi yn Ewrop wedi cynnwys dirwyon a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi presennol. Mae mecanweithiau cydymffurfio sy’n canolbwyntio ar ddinasyddion hefyd wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd sydd â mapiau digidol o barthau di-fwg.
- **Dylai argyfwng Covid-19 fod yn gatalydd ar gyfer newid** trwy bwysleisio'r pwysau y mae tybaco yn eu rhoi ar systemau iechyd ac economaidd. Fodd bynnag, gall hyn gael ei rwystro gan ymyrraeth y diwydiant tybaco ynghylch y berthynas rhwng Covid-19 ac ysmygu ar ddechrau'r pandemig.

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd**

**Manylion allweddol**

- **Beth:** Grŵp Trawsbleidiol ar Ysmygu ac Iechyd, dan gadeiryddiaeth John Griffiths AS
- **Pryd:**10.30 – 11.30, dydd Mercher 30 Medi 2020
- **Ble**: Cyfarfod ar Teams
- **Diben:** Trafod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sydd ar ddod, a'r cyfleoedd y mae'r ddeddfwriaeth newydd yn eu creu; sut y gallwn ni gael cymaint o effaith â phosibl wrth osgoi'r peryglon yr un pryd.

**Ymddiheuriadau**

- Rebecca Davies, Will Mclean, Nia Thomas, Sharon Neale

**Yn bresennol**

1. John Griffiths AS (Cadeirydd)
2. Nick Ramsay AS
3. Claire Clement (siaradwr)
4. Dr Esteve Fernandez (siaradwr)
5. Andrea Crossfield (siaradwr)
6. Sarah Grimley
7. Julie Edwards (Ysgrifenyddiaeth)
8. Suzanne Cass (ASH Cymru)
9. Beth Mahoney
10. Diana Milne
11. Christine Farr
12. Ryland Doyle
13. Karen Owen
14. Sheila Duffy
15. Jude Stamp
16. Alan Williams
17. Cerri Jones
18. Sarah Jones
19. Rhodri Thomas
20. Catherine Taylor
21. Adam Thomas
22. Alison Dally
23. Jennifer Evans
24. Suzanne Williams
25. Andrew Bettridge
26. Brody Anderson
27. Gethin Matthews-Jones
28. Christie Owen

30. P Roberts
31. L England
32. Susan Carbis
33. Andy Glyde
34. Ben Chiu
35. Faye Graver
36. Bethan Edwards
37. Gareth Richards
38. Calum Higgins
39. Kathryn Jones
40. Rebecca Lewis
41. Marianne Manello
42. Martin Fidler Jones
43. Matthew Norman
44. Nia Rees Williams
45. Stephanie Hill
46. Craig Lawton
47. Teresa Owen
48. Carl James
49. Curtis Shea
50. Gareth Richards
51. Susan Evans

29. Joseph Carter